Y BANC

Deunydd Darllen

Canolradd (De)

Chwarae'r Gêm - Act 6

(Nodyn i'r Tiwtor: Os dych chi'n dilyn Cwrs Canolradd CBAC (y De) bydd y ddrama hon yn addas unrhyw bryd ar ôl Uned 8.)

Yn y casino. Mae grŵp bach yn cwrdd mewn ystafell yn y cefn – Michael, Denzil, Greg, Tomi ac un dyn arall.

Michael: Noswaith dda. Faint o bobl sy i mewn heno, Denz?

Denzil: Yn y casino? Dau gant.

Tomi: Faint o'r bobl sy'n newydd i'r casino?

Denzil: Dros hanner. Dynion busnes, ymwelwyr. Mae rhai sy'n dod bob nos ond dyn nhw ddim yn betio llawer.

Greg: Ac wedyn, mae pobl fel ni….

Denzil: Wrth gwrs….y gamblwyr mawr. Ac mae un newydd heno, gyda llaw. Dyma Larry.

Greg: Croeso, Larry. Sut o'ch chi'n gwybod am y grŵp yma?

Larry: Ffrind. Roedd e'n gwybod mod i eisiau gêm fawr.

Greg: Dych chi yn y lle iawn. Mil i ddechrau?

Pawb: Iawn.

Greg: Ble mae Colin heno?

Denzil: Thalodd e mo'i fil. Doedd y bos ddim yn hapus.

Tomi: Ydy'r bos wedi sysbendio'r cownt?

Denzil: Mae'r bos wedi sysbendio Colin. Dwedais i wrtho fe. Chymerodd e ddim sylw ohono i. Chymerodd e ddim sylw o'r bos. Chymerodd e ddim sylw o gwbl.

Tomi: Beth ddigwyddodd?

Denzil: Aeth e i weld Caerddinas yn chwarae ond welodd e mo'r gêm.

Tomi: Colin druan.

Denzil: Mae problem arall. Mae'r bos yn nerfus nawr – yn nerfus iawn. Mae e eisiau ei arian i gyd erbyn yr wythnos nesa.

Michael: Yr wythnos nesa? Amhosib! Dyw'r arian ddim gyda fi. Dw i eisiau siarad â'r bos.

Denzil: Iawn, Michael. Ond chymeriff e ddim sylw ohonot ti. Mil o bunnau i ddechrau…?

Geirfa

Gyda llaw – by the way
Ymwelwyr - visitors